
# Plant Ddoe




## Lerpwl, Heddiw

## Ffortiwn Murray



© BBC

# Y STORI

Mae'r dirgelwch wedi ei osod yn Lerpwl yn y cyfnod modern. Mae gan rieni Billy Thompson, Julia a Stanley Thompson, broblemau ariannol ac mae Billy yn benderfynol o helpu.

Mae Billy'n darllen yn y Mersey Gazette am wobr o £100 am wybodaeth am ddirgelwch etifedd coll ffortiwn Murray a allai fod yn byw'n lleol. Mae Billy'n penderfynu ei fod yn mynd i ddarganfod pwy yw'r etifedd ac ennill y wobr.

Priododd mab Andrew Murray, Tom Murray, â Harriet yn 1913. Yn 1914 aeth i'r Rhyfel Byd Cyntaf ac roedd pawb yn meddwl ei fod wedi cael ei ladd yno. Roedd Harriet yn feichiog pan aeth i ffwrdd a, chan gredu bod Tom wedi marw, symudodd i Lerpwl i ddechrau bywyd newydd yn 1926 gyda'u mab 12 oed…

# LLYFRGELL



Mae gan lyfrgell yr ysgol gyfleusterau modern fel cyfrifiaduron a chasgliad o hen bapurau newydd lleol wedi eu cadw ar ffilm *microfiche*. Fodd bynnag, mae'r Llyfrgellydd, Mrs Patterson yn dal i hoffi cael hen bethau o gwmpas fel ei glôb pren dibynadwy. Mae'n teimlo ei bod yn llawer haws gweld lle mae gwledydd ar glôb yn hytrach nag ar dudalen wastad neu sgrîn.

Pe baech am olrhain eich achau byddai'r llyfrgell yn lle da i ddechrau. Mae'n rhaid mai dyna pam bod Billy wedi dod yma yn gyntaf. Agorwyd drysau llyfrgelloedd i bawb yn dilyn Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus 1853.

# EITEMAU



Mae hen bapurau newydd yn cael eu storio'n aml ar *microfiche* sy'n debyg i ffilm ffotograffig.



© BBC

Mae rhywun wedi gadael tudalen flaen papur newydd o 1929 o dan y syllwr.

Ar y dudalen flaen gwelir llun o barti priodas a gynhaliwyd yn y dociau.

Y geiriau o dan y llun yw:

"*O'r chwith i'r dde, y priodfab a'r briodferch newydd Mr a Mrs Prior, ei mab Charles ei gyfaill Bobby Smith a gwesteion eraill yn dathlu'r diwrnod mawr*"



Mae hen globau pren fel hwn yn dal i fod yn boblogaidd heddiw. Yn yr oesoedd canol roedd pobl yn credu bod y ddaear yn wastad a phe baech yn cyrraedd y gorwel y byddech yn syrthio oddi arni!

Rydym yn gwybod yn well erbyn hyn ac mae llawer o bobl yn teithio o amgylch y glôb, gan symud i wledydd fel Prydain. Symudodd taid Billy, Theo, i Lerpwl o Jamaica yn y 1960au.



Ar y cyfrifiadur gwelir gwefan am hel achau. Mae'r wefan yn dangos rhan o siart achau'r teulu Murray – priododd Andrew Murray ag Elizabeth Jones a ganwyd mab iddynt; Tom Murray.

Priododd Tom yn ddiweddarach â Harriet, ac aeth i'r Rhyfel Byd Cyntaf lle credid ei fod wedi marw. Roedd Harriet yn feichiog pan aeth Tom i'r rhyfel, a ganwyd mab bach iddynt yn fuan ar ôl hynny. Roedd mab Harriet yn 12 oed pan symudodd y ddau i Lerpwl yn 1926.



Mae cyfrifianellau a chyfrifiaduron yn cael eu defnyddio mewn llawer o leoedd heddiw – o'r ystafell ddosbarth, i'r cartref, i'r archfarchnad i'r swyddfa. Ond nid felly roedd pethau ers talwm.

Pan gafodd y cyfrifianellau cyntaf eu dyfeisio yn y 1880au roeddynt yn annibynadwy iawn. Dim ond yn y 1970au y daeth cyfrifianellau electronig modern heddiw yn eitemau cyffredin



© BBC

ac nid oeddent yn cael eu defnyddio mewn ystafelloedd dosbarth tan ganol y 1980au.



Heddiw mae cofrestr yn cael ei chadw ar gyfer pob dosbarth yn yr ysgol ac mae'r gyfraith yn gwneud addysg yn orfodol i blant hyd nes y byddant yn 16 oed.

Fodd bynnag, hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg nid oedd y gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i blant fynychu ysgol.

Mae'r gofrestr hon yn cynnwys enwau'r plant yn y dosbarth sy'n aelodau o'r llyfrgell – mae llawer o gyfenwau Saesneg fel Smith, Robson a Brown, ond dim ond un sy'n swnio'n Albanaidd: Alex McNair.

## TYSTION



"Wps, ro'n i'n meddwl mod i wedi gadael hwn fan hyn. Ro'n i yma gyda Billy yn gynharach – mae ganddo'r syniad yma ei fod e'n mynd i ddatrys dirgelwch yr etifedd coll mae'r papurau newydd i gyd yn sôn amdano.

Rydw i wedi dweud wrtho – os yw'r etifedd yn byw ffordd hyn mae'n rhaid mai fi yw e! Wedi'r cyfan, fi yw'r unig un o'r Alban yn y dosbarth. Pe bawn i'n etifeddu arian mawr rwy'n credu y byddwn i'n prynu'r bwrdd sglefrfyrddio gorau yn y byd a beic newydd efallai neu chwaraewr MP3.

Mae Billy'n cymryd y dirgelwch yma o ddifri – roedd e'n edrych ar wefannau a hen bapurau newydd ac yn holi Mrs Patterson y Llyfrgellydd am hel achau.

Ro'n i eisiau mynd i'r parc sglefrfyrddio, ond y dirgelwch oedd popeth gan Billy. Roedd e'n fy holi i am fy mherthnasau i yn Dundee, ac fe ddiflannodd e wedyn i ofyn cwestiynau i Jim Moore yn y siop hen bethau gan mai fe yw'r person hynaf mae Billy'n gallu meddwl amdano!"



© BBC

# Y STORI

Mae'r gŵr busnes lleol, William Murray, 61, ac adeiladwr di-waith, Barney Roberts, 36, wedi cysylltu'n barod i hawlio'r arian. Mae ffrind Billy, Alex Mc Nair, 11, hefyd yn credu ei bod yn bosib mai ef yw'r etifedd coll.

Llyfrgell yr Ysgol: Dangosodd stori mewn hen bapur newydd o 1929 fod Harriet (gan gymryd bod ei gŵr cyntaf, Tom, wedi marw) wedi priodi gŵr o'r enw Reggie Prior mewn iard longau yn Lerpwl. Newidiodd Harriet a'i mab, Charles, eu henwau o Murray i Prior.

# SIOP HEN BETHAU



Mae'r bobl leol yn galw'r siop yma yn 'Moore Junk!' ond mae Jim Moore yn mynnu mai 'hen bethau a bric-a-brac' mae e'n eu gwerthu.


Mae Jim fel tad-cu i Billy. Chafodd e ddim cyfle i ddod i adnabod yr un o'i ddau dad-cu.

# EITEMAU



Ysbydolau yw'r pethau rhyfedd hyn. Maen nhw'n cael eu defnyddio i wneud menyn. Peiriannau sy'n cael eu defnyddio i wneud menyn heddiw felly does dim angen yr ysbydolau ac maen nhw wedi cyrraedd siop yr hen Jim.

Mae llawer o hen bethau fel brasys ceffylau ac olwynion troliau sydd ddim yn cael eu defnyddio heddiw ond sy'n dal i gael eu gwerthu fel addurniadau i'w rhoi ar waliau ac ati.





© BBC

Mae'r erthygl papur newydd hon, o'r Mersey Gazette, yn sôn am ddod o hyd i etifedd lleol i arian y teulu Murray. Y pennawd yw: *"Gŵr Lleol yn Hawlio Arian Murray!"*

Mae datblygwr eiddo lleol, William Murray, 61, yn honni mai Murray yw ei gyfenw, ei fod o dras Albanaidd, bod ganddo fam-gu o'r enw Harriet, ac mai ef felly yw'r etifedd.



Mae pethau o bob math yn cyrraedd siop Jim, fel yr hen lun yma. Mae ysgrifen ar y cefn sy'n dweud:

*"Roedd yr amseriad yn berffaith - daeth ein mab Gareth i'r byd y noson cyn y Fuddugoliaeth yn Ewrop. Wel, o leiaf wnaeth e ddim colli'r parti! Roedd Charles yn falch iawn o'i fab a doedd y strydoedd llawn ddim yn mynd i rwystro mam-gu Harriet rhag gweld Gareth bach. Sophia Prior"*



Byddai'r tegan tun syml hwn wedi bod yn boblogaidd yn y 1940au. Mae'n edrych fel pe bai wedi cael llawer o ddefnydd – mae'r paent wedi gwisgo a phlicio. Gallai hyn fod yn beryglus gan fod paent â phlwm ynddo yn wenwynig. Mae teganau fel hyn sydd mewn cyflwr da yn werth llawer o arian heddiw. Mae enw rhywun oddi tano – "Gareth Prior"



Mwg Jiwbilî yw hwn. Mae dros 100 mlwydd oed a dyma fe yn siop bob dim Jim! Cafodd y mwg hwn ei wneud yn arbennig i ddathlu Jiwbilî Ddiemwnt y Frenhines Fictoria. Mae galw mawr am eitemau hanesyddol fel y rhain gan gasglwyr heddiw.



© BBC

# TYSTION



Rwy angen eistedd i lawr ar ôl i Billy fod yma, wir i chi. Roedd e fel corwynt o amgylch y lle yma yn gofyn y naill gwestiwn ar ôl y llall am bobl oedd yn arfer byw ffordd hyn a phwy allai etifedd Murray fod. Mae e'n meddwl, achos mod i ychydig bach yn hŷn, mod i fod i 'nabod pawb!

Roedd Billy i fod i'n helpu i i symud yr hen focsys teganau yna allan i'r iard gefn ond allwn i ddim cael gair i mewn. Yn y diwedd fe anfonais i e i'r parc sglefrfyrddio yn gynnar er mwyn imi gael seibiant! Fydd rhaid imi ofyn i Stanley fy helpu i yn nes ymlaen.

Roedd e'n chwarae gyda'r hen long danfor dun yna eto. Rwy'n cofio pan o'n i ddim yn chwarae gyda fy nghi, Champion, ro'n i'n arfer chwarae gyda theganau fel y rhai yna pan o'n i'n grwtyn yn Belfast adeg y rhyfel. Mae Billy wrth ei fodd gyda fe ond wnaiff ei fam ddim gadael iddo fynd ag e lan staer gan fod yr hen baent yn wenwynig. Alla i ddim cofio o ble daeth e ond mae e o gwmpas y lle yma ers cantoedd. Mae'n anodd gen i gredu y byddai rhywun am ei brynu e ond mae Billy'n ei hoffi e.

P'un bynnag, ddyweda i wrthoch chi beth ddywedes i wrth Billy – rwy'n gwybod pwy sydd <u>ddim</u> yn etifedd i arian Murray. Efallai bod y papurau newydd yn dweud ei bod hi'n bosib mai fe yw'r etifedd ond nid yr hen William Murray yna yw e, mae hynny'n sicr.

Dyw'r hen sinach yna byth yn colli cyfle i wneud arian, wrth gwrs mae e'n mynd i geisio hawlio'r arian. Ond os agorwch chi'r llyfr ffôn mae yna gannoedd o Murrays. Fel pe bai e angen mwy o arian p'un bynnag!

# Y STORI

Llyfrgell yr Ysgol: Dangosodd stori mewn hen bapur newydd o 1929 fod Harriet (gan gymryd bod ei gŵr cyntaf, Tom, wedi marw) wedi priodi gŵr o'r enw Reggie Prior mewn iard longau yn Lerpwl. Newidiodd Harriet a'i mab, Charles, eu henwau o Murray i Prior.

Siop Hen Bethau: Roedd hen lun o 1945 yn dangos Charles Prior, ei fam Harriet, a'i wraig Sophia ar ddiwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop yn dathlu genedigaeth eu mab Gareth. Cafodd hen degan o'r 1940au ei ddarganfod yn y siop hefyd ac roedd yr enw



© BBC

‘Gareth Prior’ wedi ei ysgrifennu arno.

## PARC SGLEFRFYRDDIO



Pan nad yw Billy yn yr ysgol neu’n gweithio yn y siop neu ar ei rownd bapur, mae e wrth ei fodd yn dod i’r parc sglefrfyrddio ac yn chwarae ar y ramp. Mae Billy yn un da am wneud triciau a neidiau. Mae’n dod i sglefrfyrddio yn aml gyda’i ffrind gorau, Alex McNair.

## EITEMAU



Mae’r hen giosgau coch i’w gweld yn aml ar gardiau post ac maent wedi dod yn symbol o Brydain. Fodd bynnag, mae llawer o’r hen giosgau wedi eu tynnu i lawr erbyn hyn a rhai newydd, ysgafnach wedi eu gosod yn eu lle. Mae gan y rhan fwyaf ohonom ffôn yn ein cartrefi erbyn hyn, neu ffôn symudol, a gallwn gyfathrebu’n sydyn ac yn hawdd.

Ers talwm, fodd bynnag, pe baech chi eisiau anfon neges o un ddinas i un arall byddai’n rhaid ichi gael negesydd i fynd ar gefn ceffyl a gallai gymryd diwrnodau lawer.



Mae meinciau’n cael eu gosod mewn parciau yn aml i gofio am bobl a oedd yn hoff iawn o’r parc neu’r ardal, fel bod pobl eraill yn gallu eistedd a mwynhau’r olygfa. Mae plac bach ar y fainc hon.

Y geiriau ar y plac yw “Er cof am Gareth Prior (1945-1987) gŵr Louisa a thad Julia. Colled fawr ar ei ôl. Gadawodd ni yn rhy fuan”



© BBC




Mae bagiau papurau newydd yn llachar fel bod gyrwyr yn gallu gweld y plant sy'n eu cario yn rhwydd yn gynnar yn y bore cyn iddi oleuo'n iawn.


Ar du blaen y bag papurau newydd hwn mae'r geiriau: "The Mersey Gazette".

Mae Billy'n gwneud rownd bapur cyn neu ar ôl ysgol ac yn gweithio yn siop Jim. Mae'n swnio'n dipyn o waith ond roedd plant ers talwm yn aml yn gorfod gweithio llawer iawn o oriau yn ifanc iawn i helpu'r teulu i gael deupen llinyn ynghyd.



Mae hwn yn debyg i dderbynneb siopa. Mae'n rhaid bod rhywun wedi bod allan yn nôl neges am yr wythnos. Mae'r dderbynneb yn dangos ei fod wedi prynu ei fwyd, pysgod, cig, bara, ffrwythau a llysiau i gyd yn yr archfarchnad.

Ers talwm roedd pobl yn prynu eu nwyddau mewn siopau unigol lleol fel siop y groser, siop bysgod, siop y cigydd, siop fara a siop ffrwythau. Mae'r archfarchnadoedd wedi tyfu erbyn heddiw a phobl yn byw bywydau prysurach, ac mae'r siopau bach yn gweld pethau'n anodd iawn.



Mae hwn yn edrych fel hen fwrdd sgrialu sydd wedi ei adael yma gan fod un o'r olwynion wedi dod i ffwrdd. Rwy'n siŵr y byddai'r hen Jim yn gallu ei drwsio! Mae enw arno, er nad yw'n glir iawn. Mae'n debyg i A McNair. Efallai mai ffrind Billy sydd wedi ei adael yma?

Cafodd byrddau sglefrfyrddio eu dyfeisio yn America yn y 1960au gan reidwyr tonnau a roddodd olwynion ar fyrddau tonnau pan nad oedd digon o donnau.



© BBC

# TYSTION



*"…a daeth tro annisgwyl arall yn nirgelwch etifedd ffortiwn Murray heddiw pan gyflwynodd adeiladwr di-waith lleol, Barney Roberts, 36, dystiolaeth i gefnogi ei honiad mai ef yw etifedd Murray.*

*Mae Roberts yn honni bod ei deulu'n dod o'r Alban yn wreiddiol tan y 1920au – yr adeg pan symudodd Harriet a mab Tom Murray i Lerpwl. Mae hefyd wedi dangos pâr o gyfflincs â'r llythrennau 'TM' arnynt a oedd yn arfer cael eu gwisgo gan Tom Murray ac sydd wedi bod yn y teulu ers cenedlaethau meddai ef.*

*Mae pethau'n sicr yn poethi yn y ras i ddod o hyd i etifedd arian Murray, gan fod y newyddion hyn yn ein cyrraedd ddiwrnodau yn unig ar ôl i'r gŵr busnes lleol, William Murray, hawlio mai ef yw'r etifedd. Dim ond tair awr sydd ar ôl yn awr i dderbyn gwybodaeth am yr etifedd dirgel…*

*A gweddill y newyddion, mae'r ddinas yn paratoi ar gyfer y gêm bêl-droed fawr y penwythnos yma rhwng Lerpwl ac Everton…"*

# Y STORI

Mae'r gŵr busnes lleol, William Murray, 61, ac adeiladwr di-waith, Barney Roberts, 36, wedi cysylltu'n barod i hawlio'r arian. Mae ffrind Billy, Alex Mc Nair, 11, hefyd yn credu ei bod yn bosib mai ef yw'r etifedd coll.

Llyfrgell yr Ysgol: Dangosodd stori mewn hen bapur newydd o 1929 fod Harriet (gan gymryd bod ei gŵr cyntaf, Tom, wedi marw) wedi priodi gŵr o'r enw Reggie Prior mewn iard longau yn Lerpwl. Newidiodd Harriet a'i mab, Charles, eu henwau o Murray i Prior.

Siop Hen Bethau: Roedd hen lun o 1945 yn dangos Charles Prior, ei fam Harriet, a'i wraig Sophia ar ddiwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop yn dathlu genedigaeth eu mab Gareth. Cafodd hen degan o'r 1940au ei ddarganfod yn y siop hefyd ac roedd yr enw 'Gareth Prior' wedi ei ysgrifennu arno.

Parc Sglefrfyrddio: Roedd plac wedi ei osod ar fainc i gofio am Gareth Prior (1945 – 1987). Roedd y fainc wedi ei rhoi gan ei wraig, Louisa a'i ferch, Julia.



© BBC

## FFLAT BILLY




Dyma'r ystafell fyw yng nghartref Billy lle mae'n byw gyda'i fam Julia a'i dad, Stanley. Mae'r fflat yn fach ac mae dŵr yn dod i mewn ond byddant yn drist os yw'n cael ei chwalu gan fod teulu Julia wedi bod yn byw yn y tŷ ers cenedlaethau.

## EITEMAU



Bwyd popty microdon yw hwn – cyri cyw iâr. Mae rhai pobl yn galw bwyd fel hyn yn 'swper teledu' gan eu bod yn cael eu bwyta'n aml o flaen y teledu!

Mae'r dechnoleg newydd wedi cael cryn dipyn o effaith ar y ffordd rydym yn bwyta heddiw. Mae poptai microdon yn golygu bod modd cynhesu bwyd wedi ei baratoi ymlaen llaw mewn ychydig funudau. Ers talwm roedd paratoi pryd o fwyd yn cymryd oriau yn hytrach na munudau!



Mae'r cloc mawr yma yn hen iawn. Nid cloc batris yw e. Mae'n rhaid ichi ei weindio'n rheolaidd ag allwedd. Tad Stanley oedd piau'r cloc ac roedd e'n dweud ei fod e wedi dod ag e drosodd gydag e ar y llong o Jamaica, ond mae'n fawr ac yn drwm ac mae Stanley'n amau ei fod yn tynnu ei goes.



Mae'r hen loced arian hon wedi bod yn y teulu ers cyn cof yn



© BBC


ôl mam Billy. Roedd locedi'n cael eu defnyddio'n aml i ddal llun o aelodau o'r teulu yn enwedig os oedd perthnasau oddi cartref.

Mae'r loced hon yn dyddio o'r 1850au a'r tu mewn iddi mae hen lun o fam a thad gyda mab a merch fach.



Cafodd y darllediad teledu cyntaf erioed ei wneud gan Albanwr o'r enw John Logie Baird yn 1926. Roedd y modelau cynnar mewn casys pren mawr ac roedd y lluniau'n rhai aneglur, du a gwyn. Mae'r set deledu hon yn dangos y newyddion lleol.

Mae'r sawl sy'n darllen y newyddion newydd ddatgelu mai twyllwr yw Barney Roberts. O Gymru mae'r teulu Roberts yn dod yn wreiddiol, ac nid o'r Alban fel roedd Roberts wedi honni.



Mae'r bocs yma'n cynnwys lluniau a phapurau sydd wedi cael eu cadw gan y teulu. Y tu mewn mae un o hen adroddiadau ysgol mam Billy, pasportau'r teulu a llun o rieni Billy ar ddydd eu priodas.

Y geiriau o dan y llun yw: "Priodas Stanley Thompson a Julia Prior, 24ain Mehefin, 1994".

## TYSTION



Y crwt Billy yma! Mae ei ben yn y cymylau! Roedd e'n hwyr i'w de, ac wedyn pan ddaeth e, y cyfan wnaeth e oedd llowcio'i fwyd a holi llwyth o gwestiynau – holi am tad-cu Gareth – heddwch i'w lwch – a fy hen loced i.. mynd drwy'r hen luniau…

Wnaeth e ddim hyd yn oed gorffen ei fwyd… roedd e'n gwylio'r teledu a'r holl sôn am y dyn drwg 'na'n ceisio cael gafael ar yr arian wedyn dyma fe'n neidio ar ei draed ac yn gweiddi dros y lle 'Wicked! Cŵl! Mae'r ateb gen i! Gwych!' ac i ffwrdd â fe drwy'r drws!



© BBC

Does wybod i ble mae e wedi mynd – ofynnais i i Stanley fynd i chwilio amdano fe, ond mae'r hen Jim eisiau ei help e i symud rhyw focsys yn y siop i ddechrau. Roedd Billy i fod i wneud hynny ond roedd e'n malu awyr am y dirgelwch yma. Mewn difrif, dw i ddim yn gwybod be sydd ar Billy heddiw.

## Y STORI

Mae'r gŵr busnes lleol, William Murray, 61, ac adeiladwr di-waith, Barney Roberts, 36, wedi cysylltu'n barod i hawlio'r arian. Mae ffrind Billy, Alex McNair, 11, hefyd yn credu ei bod yn bosib mai ef yw'r etifedd coll.

Llyfrgell yr Ysgol: Dangosodd stori mewn hen bapur newydd o 1929 fod Harriet (gan gymryd bod ei gŵr cyntaf, Tom, wedi marw) wedi priodi gŵr o'r enw Reggie Prior mewn iard longau yn Lerpwl. Newidiodd Harriet a'i mab, Charles, eu henwau o Murray i Prior.

Siop Hen Bethau: Roedd hen lun o 1945 yn dangos Charles Prior, ei fam Harriet, a'i wraig Sophia ar ddiwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop yn dathlu genedigaeth eu mab Gareth. Cafodd hen degan o'r 1940au ei ddarganfod yn y siop hefyd ac roedd yr enw 'Gareth Prior' wedi ei ysgrifennu arno.

Parc Sglefrfyrddio: Roedd plac wedi ei osod ar fainc i gofio am Gareth Prior (1945 – 1987). Roedd y fainc wedi ei rhoi gan ei wraig, Louisa a'i ferch, Julia.

Ystafell fyw Billy: Mae adroddiad ysgol a llun priodas Julia, mam Billy, yn dangos mai Julia Prior oedd ei henw ar un adeg. Newidiodd ei henw i Julia Thompson ar ôl priodi Stanley Thompson yn 1994. Mae llun teulu hefyd mewn hen loced sy'n dyddio o'r 1850au.

## BARN YR ARBENIGWR

Gan edrych yn ôl ar y lleoliadau ac olrhain achau'r teulu fe wnes i fy mhenderfyniad drwy gasglu'r darnau hyn o dystiolaeth:

A. Yr hen bapur newydd o 1929 a oedd yn dweud bod gwraig Tom Murray, Harriet, wedi ailbriodi â Reggie Prior yn yr iard longau. Newidiodd Harriet a'i mab, Charles Murray, eu cyfenwau a dod yn Harriet a Charles Prior.

B. Roedd y llun yn y Siop Hen Bethau yn dangos bod Charles Prior wedi priodi Sophia a'u bod wedi cael mab bach, Gareth Prior, y noson cyn y Fuddugoliaeth yn Ewrop yn 1945.

C. Roedd y plac ar y fainc er cof am Gareth Prior yn dangos bod ganddo wraig o'r enw Louisa a merch o'r enw Julia.



© BBC

A….beth ddigwyddodd i Julia Prior?

Wel, mae trysorau'r teulu yn ystafell fyw Billy yn dangos bod Julia Prior wedi priodi Stanley Thompson yn 1994.

Peth arall sy'n cefnogi hyn yw'r ffaith fod tad-cu Billy, sef Gareth, wedi marw yn 1987 a bod hen loced y teulu yn cynnwys llun o Isabella ac Andrew Murray!


Mae'r amser wedi cyrraedd, gadewch inni weld pwy yw'r etifedd...



© BBC



DARLLENWR NEWYDDION:
*"Ac yn dilyn cyfres anhygoel o ddigwyddiadau cafodd bachgen ifanc – Billy Thompson – a oedd yn ymchwilio i ddirgelwch etifedd ffortiwn Murray er mwyn ceisio cael y wobr o ganpunt sioc a hanner heddiw.*



*Funudau yn unig cyn yr amser cau, daeth yn amlwg mai Billy ei hun oedd gor-or-or-ŵyr Andrew Murray!"*



JULIA THOMPSON
*"Roedden ni'n gwybod bod Billy ni'n un o fil, ond hyn?!*



*Fedra i ddim credu mai ni yw etifeddion ffortiwn Murray!"*



© BBC